# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 01-10)

**Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2010**
**Amser: 9.30 - 11.45**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Andrew Davies, Gorllewin Abertawe
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brian Gibbons, Aberafan
David Melding, Canol De Cymru
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Siân Phipps, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

#### Cynghorydd Cyfreithiol

Joanest Jackson, Gwasanaethau Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Llewelyn Rhys, Pennaeth Cymru, Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain
Peter McGuinness, Rheolwr Gyfarwyddwr, Severnside Recycling

Tim Price, Rheolwr Masnachol Cenedlaethol - Gwerthiant a Marchnata, Severnside Recycling
Darren Williams, Cyfarwyddwr Masnachol, Eco2 Ltd

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Andrew Davies a Brian Gibbons wedi iddynt gael eu hethol i'r Pwyllgor a diolchodd i Huw Lewis a Sandy Mewies am eu cyfraniad sylweddol at waith y Pwyllgor.

### 2: Creu swyddi yn yr economi werdd
### Papurau: EL(3) 01-10 - Papur 1; EL(3) 01-10 - Papur 2; EL(3) 01-10 - Papur 3

#### Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Llewelyn Rhys, Pennaeth Cymru, Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain. 2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tyst.
**Severnside Recycling ac Eco2 Ltd**

2.3 Croesawodd y Pwyllgor Peter McGuinness, Rheolwr Gyfarwyddwr; Tim Price, Rheolwr Masnachol Cenedlaethol - Gwerthiant a Marchnata, Severnside Recycling; a Darren Williams, Cyfarwyddwr Masnachol, Eco2 Ltd.

2.4 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion. **Camau i'w cymryd:** Cytunodd Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain i ddarparu:

Rhagor o fanylion am y rhwydwaith o ddatblygwyr annibynnol o'r byd academaidd a sefydlwyd i ddatblygu technoleg morol i ddefnyddio ynni'r tonnau.
Manylion am oblygiadau ariannol ynni gwynt ar Gymru, fel yr amlinellwyd yn adroddiad Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain ar gyflwr y diwydiant.
Rhagor o fanylion ynglŷn â sut y mae cwmnïau yn y diwydiant ynni adnewyddadwy yn cydweithio i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy eu staff.

Cytunodd Eco2 Ltd i ddarparu:

Rhagor o fanylion ynglŷn â sut y mae tîm ynni'r llanw Eco2 yn cydweithio ag adrannau ac a ydynt wedi dod ar draws unrhyw rwystrau.

**Papurau i'w nodi:**

**Creu swyddi yn yr economi werdd - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**
**Papur: EL(3) 01-10 - Papur 4**

**Creu swyddi yn yr economi werdd - BT**
**Papur: EL(3) 01-10 - Papur 5**

**Creu swyddi yn yr economi werdd - Busnes yn y Gymuned Cymru**
**Papur: EL(3) 01-10 - Papur 6**

**Seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y dyfodol - TND Anderson**

**Papur: EL(3) 01-10 - Papur 7, Atodiad**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EL(3) 28-09 - Cofnodion**

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr.

**Sesiwn breifat**

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi).

### 3: Adroddiad drafft ar seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y dyfodol

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei adroddiad drafft ar seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y dyfodol, a fydd yn cael ei osod yn fuan.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ionawr 2010**